
# CYLCHLYTHYR 12.01.24

## Aelodaeth yr Urdd



Mae ymaelodi gyda'r Urdd yn cynnig nifer fawr o weithgareddau difyr i'ch plentyn, o gystadlaethau chwaraeon amrywiol (pêl-droed, rygbi, pêl-rwyd, nofio i enwi rhai), yn ogystal â'r cyfle i gystadlu yn Eisteddfodau'r Urdd, ac i ymweld â gwersylloedd preswyl yr Urdd. Rhaid i'ch plentyn fod yn aelod o'r Urdd er mwyn bod yn rhan o dimoedd yr ysgol sy'n mynychu cystadlaethau chwaraeon.

Cost aelodaeth am y flwyddyn yw £10 am unigolyn, £25 am deulu o 3 neu fwy. Os yw'ch plentyn yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim, ceir ymaelodi am £1 y pen. Cliciwch yma i ymaelodi cyn 31ain o Ionawr.

## Clybiau ar ôl ysgol

Byddwn yn cynnal clybiau amrywiol i ddisgyblion o flwyddyn 1 – 6, yn dechrau dydd Mawrth 16eg o Ionawr, rhwng 3:15 – 4:30yp. Bydd y clybiau'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau hwylus i'ch plant, o gelf a chrefft, chwaraeon, cyfrifiadureg i goginio! Bydd angen gwisgo dillad ymarfer corff ar gyfer clybiau chwaraeon. Cyfyngir y nifer ym mhob clwb i 30 felly gofynnwn i chi gofrestru eich plentyn mor fuan â phosib wrth glicio yma. Y cyntaf i'r felin gaiff falu!

| **Dydd Mawrth**<br>**3:15 – 4:30** | **Dydd Iau / Thursday**<br>**3:15 – 4:30pm** |
|---|---|
| Clwb Hwyl a Sbri<br>Bl 1 & 2 | Clwb Aml-cjwaraeon<br>Bl 3 & 4 |
| Clwb Rygbi (bechgyn a merched)<br>Bl5 & 6 | |

## Ysgol y Goedwig

Bydd ysgol y Goedwig yn ail-gychwyn wythnos nesaf. Gweler yr Amserlen isod. Cofiwch fod angen i'ch plentyn i wisgo dillad ac esgidiau addas ar y diwrnod penodol. Cysylltwch gyda'r ysgol os nad oes dillad/esgidiau addas gan eich plentyn gan fod digon o sbarion gennym. Diolch.

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Mawrth / Tuesday | 16.01.24 | Cwtch/Enfys |
| Dydd Mercher / Wednesday | 17.01.24 | Ywen |
| Dydd Mercher / Wednesday | 17.01.24 | Onnen |
| Dydd Iau / Thursday | 18.01.24 | Derwen |
| Dydd Mawrth / Tuesday | 23.01.24 | Cwtch/Enfys |
| Dydd Mercher / Wednesday | 24.01.24 | Ywen |
| Dydd Mercher / Wednesday | 24.01.24 | Onnen |
| Dydd Iau / Thursday | 25.01.24 | Derwen |
| Dydd Mawrth / Tuesday | 30.01.24 | Cwtch/Enfys |
| Dydd Mercher / Wednesday | 31.01.24 | Ywen |
| Dydd Mercher / Wednesday | 31.01.24 | Onnen |
| Dydd Iau / Thursday | 01.02.24 | Derwen |
| Dydd Mawrth / Tuesday | 06.02.24 | Cwtch/Enfys |
| Dydd Mercher / Wednesday | 07.02.24 | Ywen |
| Dydd Mercher / Wednesday | 07.02.24 | Onnen |
| Dydd Iau / Thursday | 08.02.24 | Derwen |

## DYDDIADAU PWYSIG

| | |
|---|---|
| 08.01.24 | HMS ysgol ar gau i ddisgyblion |
| 01.02.24 | Ein Senedd Ni – Siambr Hywel |
| 06.02.24 | Twrnament pêl-droed cymysg yr Urdd |
| 09.02.24 | HMS Clwstwr Plasmawr – ysgol ar gau i ddisgyblion |
| 12-16.02.24 | HANNER TYMOR |
| 20.02.24 | Pêl-droed merched yr Urdd |
| 20.02.24 | Cyfarfod Llywodraethwyr |
| 28.02.24 | Eisteddfod Ysgol |
| 02.03.24 | Eisteddfod yr Urdd, Cylch Gorllewin Caerdydd |